OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 824 (Cy.123) (C.32)

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Gorchymyn Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (Cychwyn Rhif 5) (Cymru) 2011

Gwnaed - - - - 16 Mawrth 2011

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 44(3) a (5) o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enw

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (Cychwyn Rhif 5) (Cymru) 2011.

Diwrnod penodedig

2. 18 Mawrth 2011 yw'r diwrnod penodedig ar gyfer rhoi mewn grym y darpariaethau a ganlyn o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 mewn perthynas â hawlogaeth i daliad mewn perthynas ag addysg uwch—

(a) adran 21(1), (3) a (4); a

(b) adran 21(2) i'r graddau nad ydyw eisoes wedi ei chychwyn gan erthygl 2(e) o Orchymyn Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (Cychwyn Rhif 4) (Cymru) 2010(**2**).

Leighton Andrews
Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, un o Weinidogion Cymru

16 Mawrth 2011

(**1**) 2008 p.23.
(**2**) O.S. 2010/1329 (Cy.112) (C.81).

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Y Gorchymyn hwn yw'r pumed Gorchymyn Cychwyn sydd wedi'i wneud o dan Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p.23) ("Deddf 2008") ac sy'n dod â darpariaethau penodedig o Ddeddf 2008 i rym o ran Cymru.

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu 18 Mawrth 2011 fel y diwrnod y bydd adran 21 o Ddeddf 2008 yn cael ei rhoi mewn grym o ran Cymru i'r graddau nad ydyw eisoes wedi ei rhoi mewn grym gan Orchymyn Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (Cychwyn Rhif 4) (Cymru) 2010 (O.S. 2010/1329 (Cy.112) (C.81)).

Mae is-adrannau (1) i (3) o adran 21 o Ddeddf 2008 yn diwygio adran 23C o Ddeddf Plant 1989 ("Deddf 1989"). Mae Adran 21(2) yn mewnosod is-adrannau newydd (5A) i (5C), sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sydd:

yn pennu'r swm perthnasol (bwrsariaeth addysg uwch) sy'n daladwy gan awdurdod lleol o dan adran 23C(5A) o Ddeddf 1989;

yn pennu ystyr "addysg uwch" at ddibenion y fwrsariaeth addysg uwch;

yn gwneud darpariaeth o ran talu'r fwrsariaeth addysg uwch; ac

yn gwneud darpariaeth o ran yr amgylchiadau lle y gall awdurdod lleol adennill y fwrsariaeth addysg uwch.

Mae adran 21(4) yn mewnosod is-adran (2A) newydd i adran 776 o Ddeddf Treth Incwm (Incwm Masnachu ac Arall) 2005 (p.5). Mae'r is-adran newydd yn darparu nad oes unrhyw atebolrwydd i dreth incwm yn codi ar fwrsariaethau addysg uwch.

NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r ddarpariaeth a ganlyn o Ddeddf 2008 wedi ei rhoi mewn grym o ran Cymru gan Orchmynion Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

Darpariaeth	*Dyddiad Cychwyn*	*Rhif O.S.*
Adran 8(1) (yn rhannol)	26 Ebrill 2010	2010/1329 (Cy.112) (C.81)
Adran 8(2) (yn rhannol)	26 Ebrill 2010	2010/1329 (Cy.112) (C.81)
Adran 8(3)	31 Mawrth 2010	2010/749 (Cy.77) (C.51)
Adran 10(1) (yn rhannol)	26 Ebrill 2010	2010/1329 (Cy.112) (C.81)
Adran 15 (yn rhannol)	26 Ebrill 2010	2010/1329 (Cy.112) (C.81)
Adran 16(1) (yn rhannol)	26 Ebrill 2010	2010/1329 (Cy.112) (C.81)
Adran 20(3)	26 Ebrill 2010	2010/1329 (Cy.112) (C.81)
Adran 21(2) (yn rhannol)	26 Ebrill 2010	2010/1329 (Cy.112) (C.81)
Adran 22(3) a (5) (yn rhannol)	26 Ebrill 2010	2010/1329 (Cy.112) (C.81)